Uned 7.3 Prosesu Testun a Delweddau

Ynglŷn â'r Uned:

Yn yr uned hon mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach i baratoi papur newyddion sydd wedi'u hargraffu. Maen nhw'n casglu, prosesu a chynhyrchu gwybodaeth ar ffurf testun a delwedd ac yn archwilio amrywiaeth o ddulliau cadw a thrin delweddau i greu data delweddau addas. Maen nhw'n dysgu i ddatblygu strategaethau gweithio mewn grŵp, gan gynnwys rhannu data ar draws rhwydweithiau.

Bydd cyfle i greu cysylltiadau gyda Saesneg/Cymraeg pan fydd y dysgyblion yn datlbygu'r testun ar gyfer y papur newyddion. Hefyd gellir creu cysylltiadau gyda phynciau eraill wrth ddewis y pynciau ar gyfer yr erthyglau, e.e. y tywydd, chwaraeon. Gellir cynhyrchu papur mewn iaith arall, gan ddarparu cyfle i gydweithio gyda'r adran ieithoedd modern.

Noder: mewn rhai meysydd mae'r wasg leol yn hapus i gynorthwyo neu gyfrannu at weithgareddau o'r math. Hefydd efallai bydd yn bosib integreiddio'r dasg hon o fewn 'wythnos weithgareddau' unigol. **Cwricwlwm Cymreig**: Dylid dewis straeon a naws Cymreig iddynt ar gyfer erthyglau'r papur newyddion

Ble mae'r Uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar gynllun gwaith Cyfnod Allweddol 2, yn enwedig uned 3A 'Cyfuno testun a graffeg', uned 4A 'Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, uned 4B 'Datblygu delweddau gan ddefnyddio patrymau cylchol', uned 4D 'Casglu a chyflwyno gwybodaeth: holiaduron a siartiau cylch', uned 5B 'Dadansoddi data a gofyn cwestiynau: defnyddio chwiliadau cymhleth' ac uned 5C 'Gwerthuso gwybodaeth, gwirio cywirdeb a chwestiynu hygrededd.'

Gallai disgyblion fod wedi gweithio mewn grwpiau bach eisoes yn TGCh, a bydd yr uned hon yn adeiladu ar yr arfer hwnnw. Hefyd mae'r uned hon yn gweithredu fel cyflwyniad i rwydweithio adnoddau TGCh.

Disgwyliadau

Ar ddiwedd yr uned hon

bydd mwyafrif y disgyblion: yn cydweithio i drefnu, mireinio a chyflwyno papur newyddion gan ddefnyddio templed sydd wedi'i ddylunio drwy ddadansoddi anghenion cynulleidfaoedd; yn nodi gofynion delweddau, caffael ar a phrosesu delweddau drwy'r dull mwyaf priodol; yn rhannu gwybodaeth yn hael ymhlith y grŵp; yn defnyddio eu templed a'u system i gynhyrchu rhagor o ddeunydd a agraffir.

ni fydd rhai disgyblion wedi gwneud cymaint o gynnydd a byddant: yn gweithio o fewn grŵp ac yn helpu i drefnu, mireinio a chyflwyno papur newyddion drwy ddefnyddio templed; yn sganio delweddau addas o ffynonellau sydd wedi'u henwi; yn rhannu gwybodaeth

bydd rhai disgyblion wedi gwneud mwy o gynnydd a byddant: yn datblygu proses o gynhyrchu papurau newydion sy'n rhannu tasgau yn is-dasgau sy'n hawdd i'w gweld gydag eglurder wrth ddadansoddi a dylunio'r ateb (efallai bydd gwaith ychwanegol yn golygu prosesau mwy datblygedig, *(e.e. efelychu cynhyrchu cyn-wasg, creu ffilm gwahanu*); rheoli ac amseru is-dasgau; datblygu ystod o arddulliau templed at ddibenion amrywiol.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Geirfa ac Adnoddau

Trwy'r gweithgareddau yn yr uned hon bydd disgyblion yn gallu deall, defnyddio a sillafu geirfa'n gywir sy'n berthnasol i:

- ddelweddau digidol, *e.e. sganiwr, camera digidol, cipio fframiau, math o ffeil, cydraniad, dpi (dotiau fesul modfedd)*
- cyhoeddi pen-ddesg/bwrdd gwaith, *e.e. celf llinell, templed, graddfa llwyd, priodoleddau*
- mathau o ffeil, *e.e. cywasgu, didfap, graffeg fector, CMYK (gwyrddlas, majenta, melyn, allweddell/du)*

Gwrando a siarad – trwy'r gweithagreddau, gallai disgyblion:

- gydweithio gydag eraill i rannu gwybodaeth a syniadau, a datrys problemau

Darllen – trwy'r gweithagreddau, gallai disgyblion:

- nodi'r prif bwyntiau ym mhob paragraff, gan godi pwyntiau allweddol o ddeunydd cefnogi

Adnoddau'n cynnwys:

- meddalwedd cyhoeddi pen-ddesg/bwrdd gwaith
- meddalwedd prosesu geiriau
- sganiwr
- camera digidol
- meddalwedd a chaledwedd cipio fideo
- ffoto CD, clip art

Bydd angen cadwrhai adnoddau mewn ardaloedd o'r rhwydwaith a rennir.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Gweithgaredd 1			
	• Esboniwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i weithio mewn grwpiau o dri neu bump o ddisgyblion i gynhyrchu papur newyddion. Esboniwch y bydd lleiafswm o ddwy ochr gan y papur newyddion a bydd cyfrifoldeb gan bob un o'r grŵp am o leiaf un rhan o'r papur. Bydd y papur yn cynnwys delweddau priodol y mae'n rhaid iddynt fod mewn fformat digidol ac mae'n rhaid eu casglu/paratoi o amrywiaeth o ffynonellau. Dylai'r cynnwys fod yn gyfoes ac adlewyrchu diddordebau'r gynulleidfa a ddewiswyd, ac yn cael eu cynhyrchu drwy ddefnyddio adnoddau a rennir. Mae athrawon yn gallu defnyddio enghreifftiau real i'w trafod, *e.e. arddulliau tai.*		• Gellir cynhyrchu cynnwys papur newyddion drwy gydweithio gyda Saesneg/Cymraeg a meysydd pwnc eraill. Dylai athrawon wneud penderfyniad ynghylch thema'r papur newyddion cyn dechrau ar yr uned hon neu gynnal trafodaethau gyda disgyblion. Dylai sesiynau TGCh, lle bynnag y bo'n bosib, ddelio gyda delweddu, rhwydweithio, systemau a chynhyrchiad olaf. Yn ddelfrydol, dylai'r testun fod wedi'i gyhoeddi ymlaen llaw, oherwydd amcan yw i ddisgyblion drin y testun nid ei gynhyrchu.
• bod papurau newyddion yn defnyddio cynlluniau sy'n darparu 'arddull' cydnabyddedig • nodi gwybodaeth allweddol	• Gofynnwch i'r disgyblion baratoi dadansoddiad o'r prif feini prawf y tu ôl i gynllun y papurau newyddion a chyoeddiadau eraill drwy drafod a chymharu arddulliau gwahanol. Mae'n rhaid cynnwys y canlynol; bocsys, graffeg, ffontiau a maint ffontiau. • Gofynnwch i ddysgyblion nodi'r prif pwyntiau ym mhob paragraff stori papur newyddion ac esboniwch sut i ddilyn dilyniant y syniadau a ddisgrifir.	• disgrifiwch amrywiaeth o 'arddulliau' papur newyddion sy'n seiliedig ar ychydig o elfennau dylunio a chynllunio. • nodi'r wybodaeth allweddol a gynhwysir mewn testun papur	• Gellir defnyddio cysylltiadau gyda phapurau newyddion yma i wella'r profiad dysgu.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

		newyddion	
• bod cydweithio'n systematig o gymorth i gwblhau tasgau cymhleth.	• Trafodwch strwythur tîm papur newyddion bach ac edrych ar y camau dylunio angenrheidiol i gynhyrchu papur newyddion. Dosbarthwch ddiagram llif o'r brosesau allweddol a'r canlyniadau sydd wrth wraidd cynhyrchu papur newyddion a thrafod ei strwythur. Bydd angen cynnwys dewis o gynulleidfa, dadansoddi anghenion y gynulleidfa, casglu data/gwybodaeth, prosesu data/gwybodaeth a chynhyrchu'r copi olaf. • Trafodwch sut mae grwpiau'n rhannu gwybodaeth a chyfnewid syniadau.	• arddangos cydweithio ac ymagwedd systematig • cyfrannu'n ddefnyddiol at weithgaredd grŵp, gan ddangos dealltwriaeth o'r dasg	• Gellir ychwanegu bocsys gwag at y diagram llif gyda'r cynnwys wedi'i restru ar wahân i'r disgyblion ei gwblhau. Bydd hyn o gymorth wrth drafod strwythur y system. • Gallai gwaith cartref gynnwys disgyblion yn casglu straeon y mae eu hangen ar gyfer y papur newyddion. • Bydd y gweithgaredd hwn yn pwysleisio y gall cydwethredu gydag eraill fod yn ddefnyddiol wrth rannu gwybodaeth, syniadau a datrys problemau.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg